



The North Wales Community Out Of Hospital Cardiac Arrest (OOHCA)

Prosiect, adroddiad Gorffennaf 2018 i Fawrth 2021



Sefyllfa

Mae ataliad y galon yn gyflwr lle mae'r galon yn sydyn ac yn annisgwyl yn peidio â churo o ganlyniad i ddiffyg yn system drydanol y galon. Gall unrhyw un, o unrhyw oedran, hyd yn oed plant, ddiodef ataliad sydyn ar y galon. Ni ellir ei ragweld ac fe all ddiwydd unrhyw bryd, yn unrhyw le, heb ddim rhybudd. Gall CPR gan berson gerllaw cyn i ambiwlans gyrraedd fwy na dyblu'r cyfle o oroesi'r ataliad. Gall defnyddio diffibriliwr o fewn 3-5 munud o'r ataliad arwain at gyfradd goroesi mor uchel â 70%.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen o'r enw, 'Cynllun ar gyfer Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty' yn 2017, ac mae'r ddogfen yma'n nodi fod rhywun yng Nghymru'n diodef ataliad ar y galon bob 60 munud. Mae darllen ymhellach yn pwysleisio fod cyfradd goroesi ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol wledydd.

Yn Norwy, mae 25% o gleifion sy'n diodef Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty yn goroesi, (dysgir CPR mewn ysgolion). Yn Lloegr, 8% yn unig sy'n goroesi ac mae data goroesi yn y broses o gael ei gasglu yng Nghymru drwy Gofrestr Ataliad y Galon Cymru. Mae'r gyfradd goroesi uwch yn Norwy yn gysylltiedig â gwella'r cysylltiadau o fewn y gadwyn goroesi ataliad y galon h.y. adnabyddiaeth gynnar a galw am gymorth, person gerllaw'n rhoi CPR a defnydd cynnar o ddiffibriliwr sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ogystal â chlodiant buan i'r ysbyty. Cynyddwyd y graddau goroesi yn Denmarc o 3% i 10% drwy gyflwyno strategaethau fel hyfforddiant CPR mewn ysgolion a hyfforddiant CPR gorfodol wrth gymryd prawf gyrru. Nodir mai gwella'r tair dolen gyntaf yn y gadwyn goroesi yw un o brif amcanion y cynllun Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty Cymru 2017 a chafodd ei gysylltu â blaenoriaethau cardiaidd BIPBC pan gychwynwyd y prosiect yn 2018-2019.

Cefndir:

Mae natur wledig Gogledd Cymru yn her i unrhyw wasanaeth, gan gynnwys y gwasanaethau brys. Mae bron i 80% o ataliadau ar y galon yn digwydd yn y cartref. Mae cael Diffibriliwyr Mynediad Cyhoeddus (CPAD) yn lleol yn hwyluso defnydd buan o'r diffibriliwr yn yr ardal leol, cyn i'r gwasanaethau brys gyrraedd, sy'n gwella cyfle'r claf i oroesi.

Mae'r Diffibriliwr Allanol Awtomataidd (AED) yn hunan gynhaliol gan wirio'i hun i wneud yn siŵr fod yr offer achub bywyd yn barod i'w ddefnyddio. Os oes unrhyw fath o ddiffyg arno, dangosir hyn drwy weld croes goch ar sgrin yr AED. Os yw'r AED i fod ar gael fel Diffibriliwyr Mynediad Cyhoeddus 24 awr y dydd, argymhellir y dylid ei osod ar wal allanol mewn daliwr wedi ei wresogi er mwyn cadw batri ac electrodau'r AED yn gynnes ac o fewn tymheredd addas i'w ddefnyddio yn ystod misoedd y gaeaf. Mae angen cynnal a chadw'r diffibriliwr; rhaid newid yr electrodau (y padiau sy'n glynu at y claf) bob tair i bum mlynedd gan fod y jel sy'n glynu yn dirywio dros y cyfnod hwn. Gan mai unwaith y gellir eu defnyddio, rhaid eu hadnewyddu yn dilyn ataliad ar y galon. Mae angen newid y batri bob 3 i 4 mlynedd yn ogystal. Gall SADS UK gyflenwi'r rhannau hyn.

Mae'r AED yn fodd dibynadwy o sicrhau bod person lleig yn gallu defnyddio'r diffibriliwr er nad yw wedi cael hyfforddiant blaenorol sut i ddefnyddio'r ddyfais. Fodd bynnag, mae peth oedi yn y broses o gywasgu'r frest er mwyn i'r AED allu asesu'r rhythm a rhoi cyfarwyddyd i roi sioc i'r claf. Gall yr oedi hwn i gywasgu'r frest ostwng llwyddiant y diffibrilio yn sylweddol ac mae wedi cael ei gysylltu â diffyg myocardiaidd yn dilyn adfywiad gan leihau cyfraddau goroesi ataliad ar y galon. Pan gyrhaedda Gwasanaeth Ambiwllans Cymru leoliad yr ataliad, mae'n hanfodol felly fod y parafeddygon yn gallu trosglwyddo'n gyflym a didrfferth o'r AED a ddefnyddir gan y person lleig i'w diffibriliwyr llaw eu hunain (gan eu bod yn gydnaws) heb orfod

newid y padiau os yw'r ZOLL AED wedi cael ei ddefnyddio. Mae diffibriliwyr llaw'n rhoi sioc gyflym i'r claf gydag ychydig iawn o oedi yn y broses o gywasgu'r frest i ddadansoddi'r rhythm a rhoi'r sioc. Mae oedi o fwy na 5 eiliad cyn rhoi'r sioc yn gallu haneru'r siawns o ddiffibrilio llwyddiannus ac felly mae amser yn hanfodol yn y fath sefyllfa ac mae cael padiau cydnaws yn gam arwyddocaol i drin y claf mewn pryd.

Dylid cofrestru pob CPAD gyda 'Circuit', bâs data diffibriliwyr cenedlaethol sy'n diweddarau systemau 'Computer Aided Despatch (CAD)' yn ddyddiol fel bod y person sy'n achub bywyd yn cael gwybodaeth am leoliad y diffibriliwr agosaf. Mae hefyd yn golygu fod data'n cael ei gasglu yn dilyn ataliad ar y galon ar gyfer canlyniad y Prosiect Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty Cenedlaethol sy'n casglu data o ataliadau ar y galon y tu allan i'r ysbyty yn y DU. Mae hyn yn gwneud yn siŵr fod y CPADau'n cael eu dychwelyd i fod yn barod ar gyfer y defnydd nesaf mor fuan ag sy'n bosib sydd yn hanfodol.

Asesiad o'r sefyllfa cyn y prosiect 2018

- Doedd yna ddim man cyswllt yng Ngogledd Cymru lle gallai cymunedau gael gwybodaeth ac anfon gwybodaeth at yr awdurdodau priodol ynglŷn â phrynu AED / cabinet neu dderbyn hyfforddiant CPR.
- Doedd CPADau ddim bob amser yn cael eu cofrestru gyda WAST a CAD, gallai hyn arwain at drychineb.
- Gallai cymunedau fod heb ddefnydd o'r ddiffibriliwr petai diffyg o fewn yr AED.
- Doedd cymunedau ddim yn derbyn cefnogaeth yn dilyn ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty.
- Doedd dim data'n cael ei gasglu o AED yn dilyn ataliad ar y galon.
- Roedd padiau anghydnaws yn cael eu gadael gyda'r CAPDau.
- Roedd CPADau'n cael eu gadael yn fudr ar ôl cael eu defnyddio.
- Roedd y CAPDau'n cael eu gadael gyda phŵer y batris yn isel.
- Roedd AEDau anghydnaws gyda WAST yn cael eu gosod mewn cymunedau.
- Roedd nifer o elusennau'n gweithio'n annibynnol yng Ngogledd Cymru i osod CPADau a chynnig hyfforddiant CPR, ond roedd diffyg cydweithio rhyngddynt.
- Gosodwyd CPADau mewn cymunedau heb ddim cynllun i barhau i'w cynnal a'u cadw'n weithredol.
- Gosodwyd CPADau mewn cymunedau ond doedd dim cynllunio sut i gyllido'r adnoddau y byddai angen eu hadnewyddu (batris a phadiau). Arweiniai hyn at ddiffibriliwyr nad oedd yn gweithio pan oedd eu hangen mewn digwyddiad o ataliad ar y galon brys.

Argymhellion yn dilyn asesiad 2018

Roedd angen swyddog Cefnogi Diffibriliwyr Cyhoeddus Gogledd Cymru (PADS) i reoli lleoliadau CPADau newydd a'r rhai oedd yn eu lle eisoes o fewn BIPBC. Byddai hefyd ar gael i addysgu CPR o fewn y gymuned. Byddai'r rôl yn cynnwys;

- Arwain y prosiect AED wrth iddo gael ei gyflwyno drwy Ogledd Cymru, gan sicrhau cyfathrebu a chydweithio gwell mewn partneriaeth gydag elusennau oedd yn gweithio yn y maes. Mae cydweithio'n arwain at weithredu'r prosiect yn gyflym drwy Ogledd Cymru, gan wella cyfraddau goroesi Ataliad ar y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty'n sylweddol iawn.
- Un man canolog yng Ngogledd Cymru lle gall cymunedau gael cyngor a chysylltu gyda'r awdurdodau priodol i brynu AED/cabinet neu i drefnu hyfforddiant CPR yn yr ardal.
- Sicrhau fod pob lleoliad CPAD wedi ei gofrestru gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans
- Pwynt cysylltu ar gyfer lleoliadau CPAD diffygiol
- Bod ar gael i gyfnewid defnyddiau traul yn ôl yr angen
- Trefnu sesiynau hyfforddiant CPR i gymunedau. Cynyddu gwybodaeth a hyder
- Casglu data yn dilyn ataliad y galon ar gyfer awdit cenedlaethol
- Cefnogaeth gymunedol yn dilyn ataliad ar y galon.
- Cynnal a chadw lleoliadau CPAD

Prosiect Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty (OOHCA) Gogledd Cymru:

Mae Cynllun Gogledd Cymru yn bartneriaeth a gefnogir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Elusen Gardiaidd Genedlaethol SADS UK ac yn un a gefnogwyd hefyd gan y Gweinidog Iechyd blaenorol, Vaughan Gething. Gyda'n gilydd, rydym yn awyddus i gynyddu'r nifer sy'n goroesi ataliad y galon y tu allan i'r Ysbyty yng Ngogledd Cymru yn ogystal â chael gwared â'r broblem lle mae CPADau'n ddifffygiol. Fe gefnogwyd y prosiect yn gyfan gwbl gan Elusen Gardiaidd Genedlaethol SADS UK am y 2 flynedd gyntaf, gan ariannu'r Swyddog Cefnogi Diffibriliwyr Cyhoeddus (PADS) Gogledd Cymru. Mae'r drydedd a'r bedwaredd flwyddyn wedi eu hariannu ar y cŷd gan adrannau Cardioleg BIPBC yng Ngogledd Cymru gan ddefnyddio cyfraniadau eu cronfa elusennol, Awyr Las, yn ogystal â chefnogaeth yr Elusen Gardiaidd SADUK.

Lansiad:

Cafodd y prosiect ei lansio yn ystod ymgyrch "Shocktober" WAST gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am CPR gan bobl gyffredin drwy gynnig hyfforddiant sgiliau achub bywyd drwy CPR sylfaenol a diffibrilio i blant ysgol.

Nodwyd bod hyfforddiant CPR mewn ysgolion yn allweddol i wella cyfraddau llwyddiant ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty, felly mae rhaglen barhaus o hyfforddiant CPR blynyddol am ddim wedi cael ei gynnig i bob ysgol gynradd gyda chefnogaeth WAST â thîm adfywiad BIPBC. Mae cydweithio gyda grwpiau gwirfoddol ac elusennau eraill megis St John ac Achub Calon y Dyffryn wedi sicrhau gweithrediad buan o'r rhaglen.

Cyflwynodd Sefydliad y Galon Prydain (BHF) y syniad hwn drwy gyflwyno Heart Start rai blynyddoedd yn ôl ond nid oedd nifer o ysgolion uwchradd Gogledd Cymru wedi ymateb i'r prosiect hwn, ac erbyn hyn, maent wedi cael eu hannog i wneud hynny. Gall hyn newid ymhellach pan ddaw'r cwricwlwm newydd i rym.

Cynyddu proffil prosiect Gogledd Cymru.

- Codi proffil y swyddog PADS gydag uwch dimau rheoli o fewn BIPBC a WAST.
- Derbyn cefnogaeth yr holl adrannau cardiaidd o fewn BIPBC am y prosiect.
- Derbyn cefnogaeth BIPBC/WAST i helpu i godi proffil y swyddog CPADS ar y cyfryngau cymdeithasol
- Mae BIPBC wedi cymryd rhan mewn erthyglau papur newydd am brosiect Gogledd Cymru'n rheolaidd.
- Ysgrifennodd SADS UK at ysgolion gan rannu gwybodaeth am bwysigrwydd CPR a diffibriliwyr gan gynnig pecynnau codi arian am ddim, yn cynnwys taflenni AED ac eitemau i hyrwyddo'r gwaith i helpu ysgolion i godi arian i gael AED.
- Mae fideos CPR addysgol, a gyflwynir gan y swyddog PADS, wedi cael eu cynhyrchu.
- Anfonwyd e-bost rhagarweiniol i ysgolion lleol, Cynghorau, swyddogion cyhoeddus ac uwch reolwyr o fewn BIPBC/WAST.
- Sefydlwyd cyfrif Trydar ar gyfer y swyddog Pads - @Padscymru
- Cyfweiliadau radio rheolaidd
- Hysbysebu ar ochr bysys lleol

Cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r angen am CPR/ Diffibrilio gan bobl gyffredin

- Cysylltiadau gydag ysgolion cynradd Gogledd Cymru wedi eu creu yn eu gwahodd i ymuno yn "Shocktober" WAST.
- Cynhaliwyd cystadleuaeth ysgol gan SADS UK, yn galluogi plant i drafod, ysgrifennu erthyglau a chreu fideos am bwysigrwydd CPR/ Diffibrilio

Codi ymwybyddiaeth ar gyfer CPR a diffibriliwyr cymunedol. Fideos addysgol dwyieithog,

- Sut wnes i farw?
- Ydi CPR yn gweithio?

Brandio/ Cyfryngau Cymdeithasol

- Cafodd prosiect Gogledd Cymru ei frandio yn, Cadwch Curiadau Keep the Beats (KTB).
- Cynllunio logo KTB.
- Prynwyd deunyddiau hysbysebu KTB megis baneri pop-up a byrddau hunlun ac fe'u defnyddiwyd yn ystod hyfforddiant ymgyfarwyddo â CPR/AED i hybu'r gwaith.
- Sefydlwyd tudalennau Cadwch Curiadau KTB ar y we gyda chefnogaeth elusen GIG Gogledd Cymru, Awyr Las.
www.awyrlas.org.uk/keepthebeats www.awyrlas.org.uk/cadwchcuriadau
- Rhyddhawyd negeseuon rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â phobl sydd wedi goroesi ataliad ar y galon, CPR/AED, Cadwch Curiadau KTB, BIPBC, WAST Awyr Las a SADS UK.
- Cyhoeddiadau rheolaidd i'r wasg gan BIPBC, am Oroeswyr Ataliad ar y Galon, WAST Awyr Las a SADS UK.

Codi proffil CPR drwy gefnogi digwyddiadau mawr i ddysgu CPR

- Zip Rock
- Eisteddfod
- Sioe Frenhinol Cymru
- 'Shocktober/Defibuary'
- 'Achub Bywyd ym mis Medi'
- Digwyddiadau cymunedol
- Digwyddiadau chwaraeon blynyddol megis marathon ayyb.

Sicrhau bod holl AED lleol wedi eu cofrestru gyda System WAST CAD.

Prosiect helpa drysor

- Ymgysylltu â thimau Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol (Community First Responder CFR) i helpu i fapio pob lleoliad o AEDau y gwyddir amdanynt yng Ngogledd Cymru .
- Defnyddio timau CFR i helpu gyda chasglu data am y CPADS y gwyddir amdanynt er mwyn diweddarau system CAD.
- Defnyddio timau CFR i roi tic WAST gwyrdd i'r holl AEDau sydd wedi eu cofrestru gyda WAST.
- Creu fideo dwyieithog gan reolwr y prosiect, Julie Starling a Tomos Hughes, swyddog PADS a'i hanfon i holl ysgolion cynradd Gogledd Cymru gan eu gwahodd i ymuno yn yr Helfa Drysor. (Gellid ailfrandio hon yn hawdd i'w defnyddio drwy Gymru).
- Gwneud cais am gefnogaeth gan y cyhoedd i ddod o hyd i leoliadau CPADau sydd heb eu cofrestru h.y. heb dic gwyrdd WAST.

Cynnal a chadw lleoliadau CPAD yng Ngogledd Cymru

- Safoni pob AED newydd i wella'r broses o adnewyddu padiau a batris gan swyddog PADS
- Gwirio pob safle CPAD ar hap i wneud yn siŵr eu bod wedi eu cofrestru ac yn barod ar gyfer achub bywyd
- Diweddariad cyson o restr lleoliadau safleoedd CPADau , dyddiad adnewyddu padiau a batris i helpu'r broses o gynnal a chadw (i'w gweld bellach ar BHF Circuit)
- Y Swyddog PADS efo cyflenwad o badiu a batris fel bod safleoedd CPAD yn cael eu cynnal a'u cadw heb oedi.
- WAST yn hysbysu'r Swyddog PADS pan mae CPAD wedi cael ei ddefnyddio.

Cynydd yn nifer y rhai sy'n goroesi a chefnogaeth rheolwyr wedi'r digwyddiad

- Fel Ymatebwr Cynnar, y Swyddog PADS i fynychu galwad goch yn ystod ei ddiwrnod gwaith i helpu gyda defnydd cynnar o'r CPR/AED
- Gosod targed o 48 awr i'r Swyddog PADS i adfer safle CPAD wedi iddo gael ei ddefnyddio.
- Y Swyddog PADS ar gael i lawr lwytho gwybodaeth o AED sydd wedi ei ddefnyddio (Rhaid gwneud hyn cyn gosod padiau a batris newydd neu fe fydd y data'n cael ei golli) er mwyn cefnogi:

- Diagnosis yn yr Ysbyty h.y. cyflyrau calon a etifeddwyd
- Ymchwiliad heddlu
- Achosion crwner
- Cais i'r gwneuthurwyr ynglŷn ag AED diffygiol

Hyfforddiant/Profiad y Swyddog PADS

- Mae gan y Swyddog PADS wybodaeth flaenorol helaeth ynglŷn â sefydlu safleoedd CPAD.
- Y Swyddog PADS, fel ymatebydd cynnar, i dderbyn diweddariadau rheolaidd gan WAST i gynnal ei gymhwyster i allu ymateb i alwadau galwad coch.
- Hyfforddiant Gorfodol i gael ei gefnogi gan WAST.
- Hyfforddiant Achub Bywyd Canolradd (Intermediate Life Support ILS) wedi ei gefnogi gan BIPBC (i wneud yn siŵr fod gan y Swyddog PADS wybodaeth sy'n well na chymhwyster Achub Bywyd Sylfaenol (BLS) wrth ddysgu yn y gymuned).
- Sgiliau addysgu Achub Bywyd Sylfaenol (BLS) i gael ei asesu (gan nad oes cwrs hyfforddwyr BLS ar gael ar hyn o bryd).
- Trwydded yrru sy'n caniatáu tynnu trelar (i helpu gyda darparu AED i safleoedd a hyfforddiant CPR)
- Asesiad gyrru WAST ar gyfer gyrru cerbydau sydd heb olau glas er mwyn helpu WAST yn ystod y pandemig.
- Hyfforddiant gwisgo a thynnu offer Cyfarpar Diogelu Personol ('PPE donning and doffing') i gefnogi galwadau coch yn ystod y pandemig.

Cefnogaeth i'r Gymuned:

Drwy weithio gydag elusen y GIG, Awyr Las, mae Cadwch Curiadau KTB wedi cael statws elusenol ac yn gallu:

- Cefnogi rôl y Swyddog Pad yn ariannol o 2020-2022.
- Cynnig cefnogaeth ariannol i safleoedd CPAD gan ddefnyddio cyfraniadau ariannol cymunedol.
- Derbyn cyllid o geisiadau grant gan Awyr Las ar gyfer safleoedd CPAD newydd.
- Gwneud ceisiadau am grantiau allanol ar gyfer prosiectau cymunedol.
- Cynnig diffibriliwr a chabinet rhad i gymunedau

Mae'r Swyddog CPAD ar gael i:

- Gynnig cyngor a chefnogaeth i leoliadau CPAD newydd a rhai sy'n bodoli eisoes
- Gosod y CPAD
- Cyngor ar ba fath o gabinet/ AED i'w prynu ar gyfer CPAD
- Cynnig cyngor am brynu a pheintio ciosg ffôn
- Cynnig cyngor am addasu ciosg ffôn gyda hysbyswrdd addysgu a lleoli'r CPAD
- Cefnogaeth gyda gwneud ceisiadau am grant ar gyfer safleoedd CPAD
- Pwynt cyswllt am gyngor ynglŷn â hyfforddiant CPR/AED
- Cynnig hyfforddiant CPR/AED i gymunedau Gogledd Cymru
- Cefnogaeth i wneud ceisiadau am grant ar gyfer offer achub bywyd

Cefnogaeth yn ystod y Pandemig:

- Gosododd y Swyddog PAD safleoedd CPAD Dros Dro mewn ardaloedd o risg uchel yng Ngogledd Cymru.
- Cafodd yr holl safleoedd CPAD eu cefnogi'n ariannol gan Cadwch Curiadau KTB i gael adnewyddu offer yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau y byddent yn barod ar gyfer eu defnyddio tra roedd y rhai fydda'n eu cynnal dan reoliadau'r cyfnod clo.
- Polisi Dadlygru ar gyfer CPAD a ddefnyddir yn y gymuned.
- Cynigodd y Swyddog PADS gefnogaeth i WAST i helpu parafeddygon gyda gwisgo a thynnu offer Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod galwadau coch.
- Defnyddiwyd trelar KTB gan y Swyddog PADS i gefnogi BIPBC a WAST i gludo offer hanfodol a CDP (PPE) i wahanol safleoedd drwy ardal BIPBC.
- Gyda chefnogaeth Awyr Las, fe arweiniodd Cadwch Curiadau KTB yn y broses o gydlynu cynhyrchiad cymunedol a dosbarthu CDP (PPE) i gefnogi WAST a BIPBC yn ystod cyfnodau cynnar y pandemig.

Canlyniadau:

Ar ddyddiad ysgrifennu'r adroddiad hon, mae gan Ogledd Cymru 1353 o Ddiffibriliwr Cyhoeddus o fewn yr ardal, a dim ond 5 ohonynt sydd ddim ar gael am eu bod wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar ac yn aros i gael padiau neu fatris newydd.

Safleoedd CPAD newydd;

Gyda diolch i Gynllun Gogledd Cymru, mae 502 o safleoedd CPAD ychwanegol yn awr ar gael i WAST. Fe gyflawnwyd hyn drwy osod 331 CPAD newydd yng Ngogledd Cymru, 105 yn Ne Cymru a chofrestru 56 CPAD ar system CAD gyda WAST, oedd heb eu cofrestru'n flaenorol. Diolch i lwyddiant yr 'Helfa Drysor' a oedd yn gyfrifol am ganfod hyn. Mae gan bob ysgol uwchradd o fewn ardal BIPBC AED ar eu safle.

CPADau wedi eu gwneud yn barod i'w defnyddio

Mae cyfanswm o 315 safle CPAD wedi cael eu hadfer a'u gwneud yn barod ar gyfer eu defnyddio. Cyflawnwyd hyn drwy ddod o hyd i 88 CPAD nad oedd yn barod ar gyfer eu defnyddio yn ystod yr 'Helfa Drysor' ynghyd â gwiriadau rheolaidd. Mae 113 AED wedi eu hadfer ar gyfer defnydd yn dilyn ataliad ar y galon ac mae 114 safle CPAD wedi cael padiau newydd gan fod angen eu hadnewyddu.

Diweddaru Gwybodaeth i'r 'CAD a BHF Circuit';


Gyda diolch i'r 'Helfa Drysor', fe ddiweddardwyd gwybodaeth am y nifer anhygoel o 667 safle CPAD oedd yn bodoli eisoes, ar y CAD a 'BHF Circuit'.

Achosion o Ataliad ar y Galon a Fynychwyd;

Gan gofio mai CPR a diffibrilio cynnar yw'r peth mwyaf allweddol i Adfer

Cylchrediad Digymell yn dilyn ataliad o'r galon (Return of Spontaneous Circulation ROSC), mae Swyddog PADS Gogledd

Cymru wedi mynychu 76 achos o ataliad ar y galon yn ystod ei ddiwrnod gwaith.



Cydweithio/ Hyfforddiant CPR

O ganlyniad i'r pandemig, mae hyn wedi cael ei lesteirio'n ystod y 18 mis diwethaf. Ond cyn hyn, gyda chefnogaeth WAST, mae BIPBC a sefydliadau lleol megis Achub Calon Y Dyffryn a St John wedi rhoi hyfforddiant CPR wyneb yn wyneb i 4,017 o bobl yn y gymuned, ond mae llawer mwy wedi cael hyfforddiant ar-lein. Yn ychwanegol, bob blwyddyn, rydym wedi cydlynu "Shocktober" yng Ngogledd Cymru ar ran WAST, gan ddysgu CPR i oddeutu 2,000 o blant yn ystod mis Hydref.

Gyda chefnogaeth WAST ac Achub Bywyd Cymru, mae diffibriliwr wedi cael ei gyfrannu i 40 o ysgolion cynradd yng Nghymru ac mae partneriaeth gydweithiol gyda St John wedi sicrhau fod hyfforddiant CPR/ AED/ Cymorth Cyntaf rhad ac am ddim wedi cael ei gynnig i bob ysgol.

AEDau Coll

Mae data wedi dangos fod yna 6 AED ar goll, gyda'r gwasanaethau brys yn gyfrifol am gymryd y mwyafrif o'r rheini yn dilyn achos o Ataliad ar y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty (OOHCA). Ar hyn o bryd, mae'r Swyddog PAD yn cynnal pilot system beilot i ganfod y ffordd orau o reoli AEDau unwaith y maent wedi cael eu defnyddio yn y gymuned

Helpa Drysor

Roedd yr Helpa Drysor yn llwyddiant ysgubol er mwyn tynnu sylw at CPADau oedd heb eu cofrestru a'r rhai nad oeddent yn barod ar gyfer eu defnyddio. O ganlyniad hefyd, cafodd swm sylweddol o ddata ei uwchlwytho i system CAD. Roedd fideo'r Helpa Drysor wedi cael ei anelu i addysgu'r cyhoedd am ddiffiblwyr, eu lleoliad a sut i'w defnyddio ac mae wedi cael ei wyllo dros 16.4 mil o weithiau ac fe lwyddodd i godi proffil CPADau'n sylweddol.

Fideos Addysgol

Ydi CPR yn gweithio? (Does CPR really work?)	Gwylwyd 9 mil o weithiau
Sut wnest ti farw? (How did you die?)	Gwylwyd 17mil o weithiau
Fideo'r Helpa Drysor	Gwylwyd 16 mil o weithiau
Paid ag anwybyddu poen yn y frest -gallai fod yn drawiad ar y galon	Gwylwyd 28 mil o weithiau

Gyda'i gilydd, mae ein fideos dwyieithog wedi cael eu gwyllo dros 300 mil o weithiau, gan gynnwys; Gwneud CPR yn y cartref, Beth yw Trawiad ar y Galon? Beth yw Ataliad ar y Galon? Sut i wneud CPR

Cyfraniadau

Bu Cadwch Curiadau- 'Keep the Beats' yn rhan o elusen Awyr Las y GIG am y 12 mis diwethaf, ac yn y cyfnod hwn, rydym wedi derbyn dros £20,000 mewn cyfraniadau ac mae'r cyfan wedi ei fwydo i gymuned Gogledd Cymru i gefnogi'r prosiect Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty (OOHCA).

Prosiectau Cyfredol;

Mae Cadwch Curiadau KTB wedi sicrhau cyllid ar gyfer diffibriliwyr sydd ar gael 24 awr y dydd mewn ardaloedd o risg uchel, gan gynnwys mannau fel Eryri a Moel Famau.

Mae Cadwch Curiadau KTB yn gweithio gyda Tata Steel ar hyn o bryd gyda'r bwriad o osod 20 AED ar eu safle.

Mae'r Swyddog PADS yn gweithio hefyd gyda Network Rail a Gwynt y Môr ar ddau brosiect mawr iawn fydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2021.

Prosiectau Newydd:

Rhannu fideo newydd Cadwch Curiadau KTB wedi ei hanelu at blant ysgol gynradd yn ystod "Shoctober" 2021. Lansio hysbyseb / dosbarth awyr agored addysgol Cadwch Curiadau KTB fydd ar gael yr haf yma. Bydd yr adnodd hwn yn addas ar gyfer dysgu CPR i gymunedau yn yr awyr agored yn ogystal â bod yn adnodd addysgol. Bydd yr adnodd hefyd yn cefnogi sgrinio'r cyhoedd am ffibriliad atriaidd ('Atrial Fibrillation'), gyda'r gallu i wneud ElectroCardiograff (ECG).

Gwaith i'w gyflawni ar gyfer y flwyddyn olaf

Mae Prosiect Gogledd Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith fod cylched Sefydliad y Galon Brydeinig (BHF circuit), yn gymwys iawn wrth reoli CPADau, gan wneud yn siŵr fod CPADau sydd ddim yn barod i achub yn cael eu tynnu oddi ar y system a ddim yn cael eu rhoi yn ôl ar y system nes mae'r broblem wedi ei datrys. Yn anffodus, nid yw'r gwarcheidwyr (y bobl sydd wedi ei enwebu i fod yn gyfrifol am y CPAD) yn ymateb i geisiadau am asesiad ar eu safle CPAD yn ddigon cyflym bob amser, pan fydd y CPAD wedi cael ei ddefnyddio. O ganlyniad, ni ellir ymateb i unrhyw broblem allai fodoli sy'n golygu nad yw'r CPAD yn barod

i'w ddefnyddio ac all-lein am gyfnodau hirach nac y byddem yn ei ddymuno. Oherwydd hyn, mae'r prosiect yn ymchwilio ar hyn o bryd i'r posibilrwydd o greu bâs data o staff gofal brys gwirfoddol, sy'n deall natur hanfodol adfer safleoedd CPAD yn well ac a allai gynnig cefnogaeth i'r Swyddog PADS.

Byddai hyn yn

- Lleihau teithio diangen i'r Swyddog PADS.
- Sicrhau fod safleoedd CPAD all-lein am gyfnodau byr yn unig.

CPADau yn dilyn eu defnyddio

Ar hyn o bryd, mae WAST yn datgan yn glir fod AED wedi ei alw i'w ddefnyddio a bod CPR yn digwydd ayyb ond nid oes statws ar gyfer yr AED wedi'r digwyddiad h.y. 'Heb ei ddefnyddio' 'wedi ei roi'n ôl yn y cabinet yn fudr' 'wedi ei gludo i orsaf yr ambiwlans' ayyb. Gallai ymchwilio i'r math yma o ddatganiadau gyda WAST leihau'r swm o waith sy'n gysylltiedig ag adfer safle CPAD yn dilyn digwyddiad.

Ataliad

Mae atal Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty (OOHCA) yn rhan bwysig o addysg mewn ysgolion ac yn y gymuned. Mae hybu iechyd yn beth hawdd i'w gyflawni fel rhan o sesiwn CPR, yn arbennig wrth drafod achosion Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty a newidiadau yn y ffordd o fyw er mwyn ei atal, gan gynnwys pwysigrwydd ymarfer corff, bwyta'n iach, straen meddyliol, gordewdra ac ysmegu, sydd i gyd yn gallu arwain at Drawiad ar y Galon neu Strôc neu Ataliad y Galon y Tu Allan i'r Ysbyty.

Enw (printio)

Dyddiad

Llofnod

